------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 5**

Dyddiad: Dydd Llun, 21 Tachwedd 2022

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

**Cofrestru cyn y cyfarfod (13:00-13:30)**

**1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**

(13:30)

**2 Profiadau yn y system cyfiawnder troseddol**

(13:30-14:30) (Tudalennau 1 - 12)

Tom Franklin - Cymdeithas yr Ynadon

**3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 4, 7, 8 a 9 yn y cyfarfod heddiw a'r cyfarfod cyfan ar 28 Tachwedd 2022**

**4 Profiadau yn y system cyfiawnder troseddol - trafod y dystiolaeth**

(14:30 -14:45)

**EGWYL (14.45-15.00)**

**5 Gwrandawiad cyn penodi gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

(15:00-16:00) (Tudalennau 13 - 27)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

*Noder: Yn unol â Rheol Sefydlog 17.49, caiff Aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus fod yn bresennol yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.*

Derek Walker, yr ymgeisydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio ar gyfer rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

## 6 Papurau i'w nodi

(16:00)

**6.1 Llythyr gan y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (Cymru) at y Cadeirydd ynghylch effaith yr argyfwng costau byw ar hawliau menywod**

(Tudalennau 28 - 29)

**6.2 Llythyr gan y Prif Weinidog at y Cadeirydd ynghylch y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol**

(Tudalen 30)

**6.3 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch y gwrandawiad cyn penodi Comisiynydd Genedlaethau'r Dyfodol**

(Tudalennau 31 - 33)

**6.4 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Prif Weinidog ynghylch gwaith crafu ar oblygiadau ariannol Biliau**

(Tudalennau 34 - 36)

## 7 Gwrandawiad cyn penodi: ystyried y dystiolaeth a chytuno ar adroddiad drafft

(16:00-16:30)

## 8 Blaenraglen waith

(16:30-16:40) (Tudalennau 37 - 46)

## 9 Adroddiad monitro y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: diweddariad

(16:40-16:50) (Tudalennau 47 - 57)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Recriwtio Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

**Crynodeb o'r swydd wag:**

Yng Nghymru, mae gennym gyfraith sy'n ein helpu ni i gyd i weithio gyda'n gilydd i wella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas, a'n diwylliant. Er mwyn ein pobl, er mwyn ein planed. Ar gyfer nawr, ac ar gyfer ein dyfodol. Ei henw yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf).

Bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nesaf Cymru yn darparu'r arweinyddiaeth sydd ei hangen i arwain datblygu cynaliadwy yng Nghymru dros y cyfnod 2023-2030.

Mae'r Ddeddf yn parhau i fframio a llunio sut mae polisi a gwasanaethau yn cael eu cyflawni yng Nghymru, a chyda chyrff newydd yn cael eu hychwanegu at y Ddeddf, a cherrig milltir hirdymor yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru, mae yna gyfle newydd i ymgysylltu ac ysbrydoli sector gwasanaethau cyhoeddus Cymru a sectorau eraill fel bod Cymru yn datblygu mewn modd cynaliadwy sy'n cyflawni ar gyfer pobl a'r blaned.

Penodir y Comisiynydd am gyfnod o 7 mlynedd. Bydd gan y swydd gyflog o tua £95,000. Mae'r cyflog yn destun treth ac yswiriant gwladol ac mae'n bensiynadwy.

**Cefndir:**

Drwy'r Ddeddf, mae Cymru wedi nodi saith nod llesiant uchelgeisiol sy'n sefydlu gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru gynaliadwy ac sy'n disgrifio datblygu cynaliadwy fel y ffordd y cyflawnir y nodau hyn. Mae hyn yn ymwneud â diwallu anghenion y cenedlaethau presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i arwain Cymru o ran cyflawni'r nodau llesiant hyn a newid y ffordd y mae Cymru'n gweithio, fel mai datblygu cynaliadwy yw'r egwyddor graidd sy'n llywio ein camau gweithredu i wella llesiant pobl yn awr ac yn y dyfodol. Er mwyn cynorthwyo, cefnogi ac ysbrydoli'r trawsnewid hwn, sefydlwyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol annibynnol i Gymru ('y Comisiynydd') i roi cyngor a chymorth ar ddatblygu cynaliadwy a bod yn eiriolwr dros genedlaethau'r dyfodol.

**Crynodeb cyhoeddusrwydd:**

Dosbarthwyd manylion y penodiad gan Lywodraeth Cymru drwy restrau rhanddeiliaid a ddelir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus a hysbysebwyd y swydd wag ar wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwefan Swyddfa Cabinet y DU.

Hysbysebwyd y swydd wag gan y sianeli cyfryngau cymdeithasol canlynol ac fe'i hysbysebwyd drwy'r cyfryngau a restrir isod:

**Cyhoeddiadau/ gwefannau recriwtio**

- Guardian Jobs;
- Fish4Jobs;
- Y platfform ar-lein ar gyfer The Western Mail a'r Daily Post;
- Diversity Jobsite Network;

- Golwg;
- Y Cymro;
- Indeed.

**Yn benodol i'r sector**

- Green Jobs;
- Sustainability Job; - Sustainability Job | Advertise with us
- SDG.careers; Find social impact jobs around the Sustainable Development Goals - SDG.careers
- Environment Jobs. Environmental jobs | Environmentjob.co.uk

  **Hysbyseb wedi'i thargedu**

  - I sefydliadau cydraddoldeb ac amrywiaeth;
  - Drwy gylchlythyr Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol;
  - Drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cymunedau.

**Sianeli cyfathrebu Llywodraeth Cymru**

- Blog Llunio Dyfodol Cymru;
- Bwletin y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Cylchlythyr Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol;
- Bwletin Newid Hinsawdd;
- Cylchlythyr Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol;
- Rhwydwaith Diversity in Sustainability;
- Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy;
- Cylchlythyr Foresight Ewrop;
- OECD Futures;
- Head of Horizon Scanning.

**Crynodeb o'r broses recriwtio:**

Hysbysebwyd y swydd wag ar wefan Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet rhwng 15 Gorffennaf a 15 Awst 2022
Sifft – 25 Awst 2022

Sesiwn rhanddeiliaid gydag ymgeiswyr ar y rhestr fer –rhan o'r broses ddethol cynhaliwyd llwyfan **sesiwn rhanddeiliaid** ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer ar 26, 27 a 29 Medi. Tynnwyd y rhanddeiliaid o Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Parhaodd pob sesiwn rhanddeiliaid gyfanswm o 30 munud a gofynnwyd i ymgeiswyr arwain trafodaeth ar *''Promoting the sustainable development principle – how to accelerate action.*

Cyfweliadau – rhwng 17 a 20 Hydref 2022

**Aelodaeth y panel cynghori ar asesu:**

Jane Hutt MS AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (Cadeirydd)
Jane Dodds, MS AS
Peredur Owen Griffiths, MS AS
Sam Rowlands, MS AS
Aaqil Ahmed, Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel

Cafwyd cyfanswm o 55 cais am y rôl newydd. Ymgymerwyd â phroses cyn sifftio gan uwch weision sifil gyda chefnogaeth Cadeirydd y Panel Cynghori ar Asesu a daethpwyd â 25 o geisiadau i sylw'r Panel. Yn dilyn y sifft, awgrymwyd **deg ymgeisydd ar gyfer cael cyfweliad**. Roedd y Panel Cynghori ar Asesu yn ystyried bod **pum ymgeisydd y gellir eu penodi**.

**Yr ymgeisydd a ffefrir gan y Prif Weinidog:** Derek Walker

**Gwrthdaro buddiannau**

Dim

**Gweithgarwch gwleidyddol**

Roedd yn asiant ar gyfer ymgeiswyr y Blaid Lafur yn ward Butetown yn ystod etholiadau llywodraeth leol 2022.

Yn y gorffennol mae Derek Walker wedi dal swydd yng nghangen y Blaid Lafur yn Butetown er nad yw'n dal y swydd mwyach.

Bu'n canfasio ar ran y Blaid Lafur ond nid yw erioed wedi cymryd proffil uchel mewn unrhyw ymgyrch.

LLESIANT
CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF
FUTURE GENERATIONS

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

# Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru



**Dyddiad cau: 15 Awst 2022 16:00**

Noder hysbysebwyd y dyddiad cau ar gyfer y swydd hon yn flaenorol ar 8 Awst 2022.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

The Commissioner for Public Appointments

# Gwneud cais



**Diolch am eich diddordeb yn rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("y Comisiynydd"). Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion am rôl a chyfrifoldebau'r swydd a'r broses ddethol.**

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma [llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus](llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus)

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar 'Chwiliwch am benodiadau cyhoeddus yng Nghymru', dod o hyd i'r swydd wag, a chlicio ar 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, a thrwy wneud byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill a wnewch, trwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais.

I wneud cais, bydd angen i chi gyflwyno dwy ddogfen ategol:

- CV llawn
- Datganiad personol sy'n rhoi manylion eich profiad, sut rydych yn bodloni'r disgrifiad rôl a manyleb y person, a pha gyfraniad y gallech ei wneud i rôl y Comisiynydd.

Dylid lanlwytho'r ddwy ddogfen i'r adran 'Atodi Dogfen(au) Ategol' yn y ffurflen gais ar-lein.

Os oes angen i ni drefnu addasiadau i'ch galluogi i wneud cais, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus: [PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru](mailto:PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru)

## Curriculum Vitae

**Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.**

## Datganiad Personol

**Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf ym Manyleb y Person yn y pecyn hwn.**

Dylai'r datganiad gynnwys enghreifftiau sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf isod. Dylai'r enghreifftiau hyn ddisgrifio beth oedd eich rôl, a'r dull a ddefnyddiwyd gennych i sicrhau canlyniad penodol.

Cyfyngwch eich datganiad personol i ddwy dudalen A4 gan ddefnyddio ffont Arial 12.

## Y broses ddethol

**Prif Weinidog Cymru fydd yn penodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.**

Bydd penodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn benodiad arwyddocaol gan Weinidogion Cymru a chaiff ei reoleiddio bellach o dan y Cod Llywodraethu Penodiadau Cyhoeddus.

Bydd y Prif Weinidog yn cael cymorth i wneud penderfyniadau gan **Banel Asesu Cynghorol**. Bydd y panel hwn yn cynnwys y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (y Gweinidog arweiniol), tri aelod sy'n cynrychioli gweddill pleidiau gwleidyddol y Senedd, ac Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel. Wrth gynnal eu hasesiad o'r ymgeiswyr, rôl y Panel yw penderfynu'n wrthrychol pwy sy'n bodloni'r meini prawf dethol a gyhoeddwyd ar gyfer y rôl – mewn geiriau eraill, pwy sy'n gymwys i'w benodi. Bydd y panel yn cael ei gadeirio gan Uwch Was Sifil.

Bydd **sesiwn i randdeiliaid** hefyd ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer, a fydd yn cynnwys unigolion o blith cyn-fyfyrwyr Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Caiff yr Academi hon ei rhedeg gan swyddfa'r Comisiynydd ac mae'n dwyn ynghyd ystod amrywiol o bobl o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddatblygu eu gwybodaeth, eu harferion a'u harweinyddiaeth ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Y Ddeddf'). Bydd gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer ymgysylltu â rhanddeiliaid yr Academi yn ystod y sesiwn, ar bwnc perthnasol a phwysig y cytunir arno yn nes at yr amser.

Mae'n debygol y cynhelir gwrandawiad cyn penodi'r ymgeisydd a ffefrir, a hynny gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Bydd y Pwyllgor yn gwrando ar dystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir cyn i'r penodiad gael ei gadarnhau, ond ar ôl i'r broses ddethol gael ei chynnal.

## Anghymhwyso

Mae paragraff 6 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn manylu ar ba sail y gellir anghymhwyso unigolion rhag cael eu penodi'n Gomisiynydd.

## Amserlen (amodol)

- Dyddiad cau'r hysbyseb: **8 Awst 2022**
- Sifft: **diwedd Awst/dechrau Medi**
- Sesiwn rhanddeiliaid a chyfweliadau: **ddiwedd Medi/dechrau Hydref**
- Gwrandawiad cyn-penodi posibl: **diwedd Hydref/dechrau Tachwedd**
- Cadarnhau'r penodiad: **Tachwedd 2022**
- Dechrau'r penodiad: **Chwefror 2023**

# Datganiad Amrywiaeth

**Mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol, a phobl o wahanol gefndiroedd ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol.**

## Cynllun Gwarantu Cyfweliad



**Fel rhan o'n hymrwymiad i annog pobl anabl i ymgeisio am swydd yn Llywodraeth Cymru, byddwn yn cynnig cyfweliad i bobl anabl sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd.**

Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod, yn gyffredinol, yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas sy'n analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu aelodau staff newydd posibl) berfformio ar eu gorau.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd (nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd).

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, os ydych yn niwrowahanol neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a'ch bod am drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn gwneud addasiadau os byddech yn llwyddiannus, anfonwch e-bost at y Tîm Penodiadau Cyhoeddus (PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru) cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod.

## Ymholiadau

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, cysylltwch ag Andrew Charles (Dirprwy Gyfarwyddwr, Dyfodol Cynaliadwy) andrew.charles@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

## Ceisio creu Cymru fwy cynaliadwy

Yng Nghymru rydym yn gwneud pethau'n wahanol. Mae gennym gyfraith sy'n ein helpu ni i gyd i weithio gyda'n gilydd i wella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas, a'n diwylliant.

Er mwyn ein pobl, er mwyn ein planed. Ar gyfer nawr, ac ar gyfer ein dyfodol.

Ei henw yw Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Y Ddeddf'), mae Cymru wedi nodi saith nod llesiant uchelgeisiol sy'n sefydlu gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru gynaliadwy ac sy'n disgrifio datblygu cynaliadwy fel y ffordd y cyflawnir y nodau hyn. Mae hyn yn ymwneud â diwallu anghenion y cenedlaethau presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i arwain Cymru o ran cyflawni'r nodau llesiant hyn a newid y ffordd y mae Cymru'n gweithio, fel mai datblygu cynaliadwy yw'r egwyddor graidd sy'n llywio ein camau gweithredu i wella llesiant pobl yn awr ac yn y dyfodol.

Er mwyn cynorthwyo, cefnogi ac ysbrydoli'r trawsnewid hwn, sefydlwyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol annibynnol i Gymru ('y Comisiynydd') i roi cyngor a chymorth ar ddatblygu cynaliadwy a bod yn eiriolwr dros genedlaethau'r dyfodol.

**Rydym yn chwilio am ymgeiswyr a fydd yn gallu chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o wneud Cymru'n genedl gynaliadwy sy'n gyfrifol yn fyd-eang drwy ysbrydoli, cefnogi a dod â phobl a sefydliadau at ei gilydd i gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru.**

Bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nesaf Cymru yn darparu'r arweinyddiaeth angenrheidiol i arwain a galluogi datblygu cynaliadwy yng Nghymru dros y cyfnod 2023-2030.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i gefnogi Cymru i gyflawni ei nodau llesiant a symud y wlad ymlaen at lwybr mwy cynaliadwy.

Mae'r Ddeddf yn parhau i lunio a llywio'r ffordd y caiff polisïau a gwasanaethau eu darparu yng Nghymru, a chyda chyrff newydd yn cael eu hychwanegu at y Ddeddf a cherrig milltir hirdymor yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru, mae cyfle o'r newydd i ymgysylltu ac i ysbrydoli gwasanaethau cyhoeddus Cymru a sectorau eraill fel bod Cymru'n datblygu mewn ffordd gynaliadwy ac yn cyflawni ar gyfer pobl a'r blaned.

Mae tudalennau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r canllaw hanfodion yn rhoi cefndir pellach ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

**Y swydd**

Mae Adran 17 o'r Ddeddf yn sefydlu swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sef unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â'r Senedd. Penodir y Comisiynydd am gyfnod o **7 mlynedd**. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllideb o £1.509 miliwn y flwyddyn i'r Comisiynydd.

**Crynodeb o'r dyletswyddau a'r pwerau**

Rôl **dyletswydd gyffredinol** y Comisiynydd yw:

- **Hyrwyddo'r** egwyddor datblygu cynaliadwy.
- **Gweithredu fel gwarcheidwad** gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.
- **Annog** cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor eu gweithgareddau.
- **Monitro ac asesu** y gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant a bennwyd gan y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.



Wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, gall y Comisiynydd:

- Roi **cyngor neu gymorth** i'r canlynol:
  - Corff cyhoeddus.
  - Bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (mewn perthynas â pharatoi ei gynllun llesiant lleol).
  - Unrhyw berson arall y mae'n credu ei fod yn gweithredu, neu'n ceisio gweithredu, mewn ffordd a allai gyfrannu at nodau llesiant Cymru.
- **Annog arferion gorau** a hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith cyrff cyhoeddus i helpu i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion llesiant mewn modd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Annog cyrff cyhoeddus i **weithio gyda'i gilydd** a chydag eraill os gallai hynny eu cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion llesiant a rhannu'r gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau.
- **Hyrwyddo ymwybyddiaeth** ymhlith cyrff cyhoeddus o'r angen i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Cynnal **adolygiad** i nodi i ba raddau y mae corff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.
- Ymgymryd ag **ymchwil** neu **astudiaeth** i ystyried pa mor gyson yw nodau a dangosyddion llesiant â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yr egwyddor ei hun, ac unrhyw beth sy'n ymwneud ag effeithiau ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- Rhoi cyngor i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rhaid i'r Comisiynydd wneud y canlynol:

- Llunio a chyhoeddi **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol** 12 mis cyn pob etholiad Senedd, sy'n cynnwys ei asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i gyflawni'r nodau llesiant. Rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori ag ystod eang o sefydliadau a chynrychiolwyr wrth lunio'r adroddiad.
- Llunio a chyhoeddi **Adroddiad Blynyddol** a fydd yn cynnwys crynodeb o'r camau a gymerwyd gan y Comisiynydd, dadansoddiad o effeithiolrwydd y camau hynny, crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd, a blaenraglen waith. Gall yr Adroddiad Blynyddol gynnwys asesiad y Comisiynydd o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Rhoi sylw i waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol wrth gynnal adolygiadau a pharatoi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.

Nid yw'r Ddeddf yn pennu pa benderfyniad y dylai corff cyhoeddus ei wneud mewn unrhyw sefyllfa benodol ac nid yw'n rhoi hawliau i unigolion. Nid yw Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn rheoleiddiwr ar gyfer penderfyniadau unigol gan gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Nid yw'r Comisiynydd yn ymchwilio i gwynion nac yn rhoi cymorth ariannol i unigolion sy'n ceisio datrysiad i'w hachosion penodol. Nid yw'n haen ychwanegol o apêl ar faterion penodol.

Nod y Ddeddf yw ysgogi trafodaeth, cefnogi, a sbarduno gwelliannau i'r ffordd y caiff pethau eu gwneud yng Nghymru fel mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol sy'n llywio'r hyn y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud a sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio.

Wrth gyflawni dyletswyddau a phwerau'r rôl, bydd y Comisiynydd yn:

- **Cefnogi sefydliadau** i ymgorffori datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol, a hwyluso cydweithio a chydweithredu o fewn gwasanaeth cyhoeddus Cymru a chymdeithas ehangach Cymru i wneud i hyn ddigwydd.
- Bod yn **eiriolwr** dros genedlaethau'r dyfodol o fewn y broses o wneud penderfyniadau yng Nghymru, gan ysgogi trafodaeth genedlaethol a deialog barhaus ar yr angen i Gymru ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy drwy ystyried y tymor hir mewn modd gweithredol.
- Hyrwyddo gwell **dealltwriaeth** o gysyniadau a gwerthoedd allweddol sy'n sail i'r Ddeddf, megis terfynau amgylcheddol byd-eang, tegwch rhwng y cenedlaethau, llywodraethu da, a rhagwelediad. Mae hyn yn cynnwys y cysylltiadau rhwng datblygu cynaliadwy a'r argyfyngau hinsawdd a natur a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Dylent ategu cyngor arbenigol sydd ar gael ar rannau o'r nodau llesiant.
- Canolbwyntio ar **alluogi'r newid** mewn cyrff cyhoeddus a chefnogi gwelliannau i'r diwylliant, y gallu a'r systemau sy'n llywio eu gwaith fel bod dewisiadau a phenderfyniadau mwy cynaliadwy yn cael eu gwneud. Mae hyn yn golygu rhoi sylw arbennig i sut a phryd i gefnogi cyrff cyhoeddus ac eraill i sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl gan alluogi'r cyrff hynny i greu'r atebion cynaliadwy eu hunain. Bydd rhannu a hyrwyddo arferion da yn rhan bwysig o hyn.
- Datblygu **perthynas** â phob sector (gan gynnwys cymunedau a'r gymdeithas sifil ehangach) i hyrwyddo ac annog datblygu cynaliadwy.
- Sicrhau bod gan y swyddfa **fynediad at gyngor annibynnol** i lunio a llywio ei gwaith. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyngor gan y Panel Cynghori. Bydd Panel Cynghori sy'n cynnwys aelodau statudol, ac aelodau eraill a benodir gan Weinidogion Cymru, yn rhoi cyngor i'r Comisiynydd ar arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.
- **Arwain a rheoli swyddfa** Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gorff cryf, hyderus y gellir ymddiried ynddo sy'n cefnogi gwelliant parhaus yn y ffordd y mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Dylai'r corff ddangos arferion gorau drwy weithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd y mae'n gweithio.

- Bydd y Comisiynydd yn cyflawni rôl Corfforaeth Undyn ac yn gweithredu fel **Swyddog Cyfrifyddu** a bydd yn gyfrifol am sicrhau bod y swyddfa'n gweithredu'n effeithiol ac i safon uchel o uniondeb. Bydd hyn yn cynnwys rheolaeth ariannol effeithlon ar Swyddfa'r Comisiynydd fel ei bod yn defnyddio'i hadnoddau yn ddarbodus ac yn effeithiol, gan osgoi gwastraff a gormodedd, a chynllunio i ddefnyddio ei hadnoddau ar lwybr fforddiadwy a chynaliadwy, o fewn terfynau y cytunwyd arnynt. Bydd yn hanfodol i'r Comisiynydd arddel barn gytbwys ynghylch gofynion neu adnoddau eraill. Bydd y Comisiynydd yn paratoi amcangyfrif o incwm a threuliau'r Comisiynydd a staff y Comisiynydd ac yn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.
- Cefnogi **newid diwylliant** o fewn cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill. Bydd hyn yn cynnwys pwyslais ar gefnogi cyrff i wella eu trefniadau ar gyfer y pum ffordd o weithio (hirdymor, integreiddio, cynnwys, atal a chydweithio) a'r ffordd y maent yn eu rhoi ar waith.
- **Gweithio gyda phartneriaid** yng Nghymru ac yn Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang a galluogi pobl a sefydliadau o Gymru i arddangos a bod yn rhan o'r mudiad datblygu cynaliadwy rhyngwladol.
- Cytuno â Llywodraeth Cymru ar brotocol neu **Gytundeb Fframwaith** wedi'i ddiweddaru.
- Cydweithio ag **Archwilydd Cyffredinol Cymru**, o gofio'r dyletswyddau sydd gan y naill a'r llall o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

I gael gwybod mwy am Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ewch i [www.futuregenerations.wales/cy/](www.futuregenerations.wales/cy/)

Ar gyfer y darpariaethau penodol sy'n ymwneud â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gweler [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk)](legislation.gov.uk)

## Mae’r Prif Weinidog yn awyddus i benodi unigolyn a all ddangos y canlynol:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn am ddatblygu cynaliadwy, ei berthnasedd i Gymru a’r heriau a’r cyfleoedd sy’n codi yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.
- Rhinweddau arwain profedig a phrofiad o gyflawni neu hwyluso newid sefydliadol a diwylliant mewn sefydliadau yn llwyddiannus.
- Gallu datblygedig i ennyn hyder mewn amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys sgiliau perswadio, a dylanwadu’n gadarnhaol ar bobl ar bob lefel, ac ymdrin â’r cyfryngau a chynulleidfaoedd cyhoeddus ehangach.
- Profiad o weithio gyda chyrff cyhoeddus neu sefydliadau tebyg i’w cefnogi a’u hannog i weithio mewn ffordd fwy integredig a/neu i edrych i’r tymor hir.
- Gwybodaeth am, a hanes o ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac o weithredu ar hynny mewn sefydliadau mawr a chymhleth.
- Profiad cryf o ran materion ariannol, rheoli pobl, a llywodraethiant.
- Y gallu i fynegi materion cymhleth yn syml ac yn glir a chyflwyno tystiolaeth mewn ffordd glir a chymhellol.
- Gwybodaeth brofedig am dirwedd y sector gwleidyddol a’r sector cyhoeddus yng Nghymru.
- Dealltwriaeth o rolau cymharol cyrff cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac ymrwymiad i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan.



## Y Gymraeg

Ystyrir bod y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer rôl y Comisiynydd, a hynny ar y lefel a nodir isod:

Deall – Gall ddeall sgyrsiau sylfaenol am bynciau bob dydd

Darllen – Gall ddarllen rhai geiriau ymadroddion sylfaenol

Siarad – Gall gynnal sgwrs syml mewn sefyllfa waith

Ysgrifennu – Gall ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd

Mae hyn yn golygu y byddai’n fantais i ymgeisydd pe bai’n gallu deall a chyfrannu at rannau o sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg, os yw wedi bodloni’r holl feini prawf hanfodol eraill.

# ATODIAD 1 – Cefndir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

## Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru

Ers sefydlu datganoli yng Nghymru, mae datblygu cynaliadwy wedi bod yn egwyddor arweiniol o ran sut mae Cymru'n gweithio. Yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r *ddyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy* gan y Llywodraeth wedi cyfrannu at ffurfio polisïau cyhoeddus, gan helpu Cymru i arwain y ffordd o ran mynd i'r afael â'r heriau cynaliadwyedd y mae gwledydd ym mhob cwr o'r byd yn eu hwynebu.

Yn 2015, pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, crëwyd fframwaith deddfwriaethol sylweddol a chynhwysfawr i sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn greiddiol i waith y Llywodraeth a gwaith cyrff cyhoeddus sy'n gwasanaethu pobl Cymru a'i hamgylchedd. Drwy gyfrwng y Ddeddf, Cymru yw'r unig wlad i ddarparu ymateb deddfwriaethol cynhwysfawr i Agenda 2030 – y Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cyfres o nodau llesiant integredig ac anwahanadwy sy'n disgrifio Cymru gynaliadwy drwy brism llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.



**Y saith nod llesiant cenedlaethol**



Mae'n rhoi fframwaith mesur ar waith ar gyfer y nodau hyn drwy 50 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol a chyfres o gerrig milltir sy'n dangos graddfa'r newid sydd ei angen i gyflawni'r nodau llesiant.

Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu dull pellgyrhaeddol o weithredu drwy **ddyletswyddau llesiant unigol** ar sefydliadau cyhoeddus megis awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chyrff cenedlaethol, a **dyletswyddau llesiant ar y cyd** sy'n dod â'r cyrff hyn at ei gilydd ar lefel leol i asesu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i lesiant eu hardaloedd (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus).

Prif nod y Ddeddf yw sicrhau mai datblygu cynaliadwy – *datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain* – yw **egwyddor drefniadol graidd** y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Felly, cynlluniwyd y dyletswyddau o dan y Ddeddf i ddylanwadu ar **beth** y mae cyrff yn ei wneud, **sut** maent yn gweithio, a **sut** y maent yn cyfleu camau gweithredu.



Mae natur fwriadol eang y Ddeddf yn cydnabod nad yw datblygu cynaliadwy yn ymwneud â phenderfyniadau unigol yn unig; mae'n ymwneud â newid diwylliannol yng ngallu, sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae'n parhau i fod yn fframwaith deddfwriaethol galluogol sydd wedi'i gynllunio i gefnogi a herio ffyrdd o weithio a all fod yn fyrdymor ac yn adweithiol; heb fod yn ddigon cydlynol ar draws gwahanol ymyriadau polisi; yn brin o'r cydweithio sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni; ac wedi'u datgysylltu oddi wrth y bobl yr effeithir arnynt yn uniongyrchol. Mae'r pum ffordd o weithio sy'n rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ceisio mynd i'r afael â'r gwendidau hyn yn y ffordd y mae sefydliadau'n ymateb i heriau cynaliadwyedd systemig a chydgysylltiedig megis newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth, anghydraddoldeb, a gwaith teg.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r gwelliant parhaus hwn, cydnabuwyd bod angen **ffynhonnell annibynnol o gymorth** i helpu i hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhannu arferion da, ac ysbrydoli'r trawsnewid yr oedd ei angen. I gydnabod yr heriau hyn, sefydlwyd sefydliad newydd o dan y Ddeddf – **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. Daeth hyn â mwy o gysondeb i'r cyngor annibynnol ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

## Llywodraeth Cymru

Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yn cynnwys addysg, iechyd, llywodraeth leol, trafnidiaeth, cynllunio, datblygu economaidd, gwasanaethau cymdeithasol, diwylliant, y Gymraeg, yr amgylchedd, amaethyddiaeth a materion gwledig. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud â'r meysydd hyn, i Gymru gyfan, yn datblygu ac yn gweithredu polisïau, ac yn cynnig cyfreithiau Cymru (Biliau'r Senedd).

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y polisi ar ddatblygu cynaliadwy/llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r polisi hwn wedi'i gyfuno i raddau helaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd hirsefydlog i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac felly bydd angen perthynas waith dda rhwng y Llywodraeth a'r Comisiynydd wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy er mwyn rhoi arweiniad ar y cyd ar yr agenda hon.

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ei raglen waith yn annibynnol ar y Llywodraeth a chaiff ei ddatblygu a'i gyhoeddi fel rhan o'i Adroddiad Blynyddol. Anogir ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar y rhaglen waith fel bod cydlyniant rhwng gweithgareddau'r ddau sefydliad i hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Fel y nodwyd yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cytundeb Fframwaith gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Caiff hwn ei baratoi gyda'r Comisiynydd, a bydd y Comisynydd yn cytuno arno. Caiff hyn ei adolygu ar ôl penodi'r Comisiynydd newydd gyda'r nod o gytuno ar Gytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru o fewn tri mis i'r penodiad.

## Senedd Cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, ac i ddwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif. Mae'n cael ei adnabod fel y Senedd, ac mae'n deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi Cymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae ganddi 60 o Aelodau Etholedig, a dyma'r corff yng Nghymru sy'n cyfateb i Senedd y Deyrnas Unedig yn San Steffan. Cynhelir etholiadau i'r Senedd bob pum mlynedd. Mae'r Senedd, sydd wedi'i lleoli ym Mae Caerdydd, yn gartref i'r siambr drafod seneddol a elwir yn Siambr.

Mae'r Senedd yn dwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif am eu penderfyniadau a gallant ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan y Comisiynydd i wneud hyn.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yw Prif Bwyllgor y Senedd sy'n gyfrifol am graffu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gall y Pwyllgor hefyd graffu ar waith ac Adroddiadau Blynyddol y Comisiynydd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gymryd tystiolaeth gan y Comisiynydd (fel swyddog cyfrifyddu).

## Rhagor o wybodaeth

Rhwystrau rhag gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus (2020)
www.busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=28311

Craffu blynyddol ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Diweddariad Ebrill 2022
www.senedd.cymru/media/js0h1krf/cr-ld15086-w.pdf

Tudalen y pecyn 27

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45482, ISBN digidol 978-1-80364-553-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

10 November 2022

Dear Members of the Equality and Social Justice Committee,

I am writing to you on behalf of the **Gender Network**, a policy forum of 50 organisations, activists and academics that aim to strengthen women's rights and gender equality for all women and girls in Wales.

On 5th October 2022 the Gender Network held a meeting on the **impact of the cost-of-living crisis on women's rights,** with a particular focus on women who experience intersecting forms of discrimination.

I would like to draw to your attention the following core themes that emerged in the discussion:

- **Women are at the centre of the cost-of-living crisis.** This is largely due to the strong link between caring responsibilities and financial inequality. For instance, almost half (46%) of single parents live in poverty, with around 86% of these being women.
- **We urgently need investments in childcare and social care** as an economically sound recovery stimulus that prevents more women and children from falling into poverty and improves conditions for those that have been worst affected.
- Rising costs make women more vulnerable to being trapped in abusive situations. **Women who experience intersecting discrimination**, including disabled women, ethnic minority women, trans women, and women with no recourse to public funds, are being hit hardest by rising costs.
- Rising costs are affecting support accommodation providers for survivors of VAWDASV. **There is a need for Welsh Government to be flexible to accommodate rising bills because estimates have been based on previous years.**
- **Many food banks are only open during working hours and are therefore not accessible to an increasing number of women who are experiencing in-work poverty.** There is, therefore, a need for more streamlined information on what support is available for people who are struggling financially during these times. Local authorities should actively advertise the support available.
- **Welsh Government should use gender budgeting and progress the recommendations laid out in the Gender Equality Review**, to ensure budgetary decisions responding to the cost of living crisis, and policies and laws in general, do not disproportionately impact women or favour men.

It clearly emerged that women who experience intersection discrimination face additional challenges from the cost-of-living crisis. For example, participants highlighted the following challenges for ethnic minority women and disabled women:

- Many ethnic minority women who have been working have faced **tremendous difficulties with Universal Credit (UC)**, especially women over 50 and single mothers. They often worked part-time and UC affected income, rent, council tax reductions, and carers allowance without clear communication about these impacts. Many have left work and cancelled their carers allowance as a result.
- Disabled homeowners struggle to keep up with mortgage payments and face the additional challenge that their homes may have adaptions that they need, making it hard to relocate. **There has also been a notable increase in ableist hate speech on social media**

Address
WEN Wales
c/o International House
10 Churchill Way
Cardiff
CF10 2HE

Contact
admin@wenwales.org.uk
wenwales.org.uk

Info
Charity Number:
1145706
Company Number:
07891533

targeting disabled people in receipt of benefits.** There is a need for Welsh Government to intervene to challenge these misconceptions.

- **In the context of social care, there is a need for additional support for equipment maintenance and running costs, which is not currently provided.** With rising costs, these could be very expensive, and many people were unable to use their equipment as a result.

I would like to meet with you to explore how we can work together to ensure that the response to the rising costs of living leaves no woman in Wales behind. I would be grateful if your office could contact me at jessica@wenwales.org.uk to arrange a suitable date for a meeting.

I look forward to your response.

Yours sincerely,

Jessica Laimann

***Policy and Public Affairs Manager, Women's Equality Network (WEN) Wales***

**Address**
WEN Wales
c/o International House
10 Churchill Way
Cardiff
CF10 2HE

**Contact**
admin@wenwales.org.uk
wenwales.org.uk

**Info**
Charity Number:
1145706
Company Number:
07891533

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

10 Tachwedd 2022

Annwyl Huw,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyngor y Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am gyfarfod cyntaf Cyngor y Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig, a gynhelir yr wythnos hon.

Y Prif Weinidog Rishi Sunak fydd yn cadeirio'r Cyngor. Byddaf yn mynychu'r cyfarfod yn rhithwir. Bydd y cyfarfod yn ymdrin â'r economi a'r argyfwng costau byw.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad; y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; y Pwyllgor Cyllid; a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

16 Tachwedd 2022

Gwrandawiad cyn penodi: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Tachwedd 2022, a'r gwahoddiad i Aelodau o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus fod yn bresennol yn y gwrandawiad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nesaf.

Bydd nifer o'n Haelodau yn bresennol ac mae Clercod y Pwyllgor yn cydgysylltu ynghylch y trefniadau ar gyfer hyn.

Fe wnaethoch ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed gan fy Mhwyllgor ynghylch craffu ar Gomisiynwyr Cymru. Gallaf gadarnhau y bydd y Pwyllgor yn trafod ei ddull o fynd ati i wneud y gwaith hwn yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd a byddaf yn eich diweddaru ymhellach ar ôl hyn.

Yn gywir

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

1 Tachwedd 2022

Annwyl Mark

Gwrandawiad cyn penodi: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Byddwn yn cynnal gwrandawiad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nesaf ddydd Llun 21 Tachwedd.

O ystyried cylch gwaith eich Pwyllgor, hoffwn eich gwahodd chi a/neu Aelodau o'ch Pwyllgor i ymuno â ni ar gyfer y gwrandawiad am 13.30 (gyda rhag-gyfarfod am 13.00). Bydd y sesiwn yn para awr a bydd Aelodau'n gallu ymuno wyneb yn wyneb neu drwy Zoom. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai Clercod y Pwyllgor gydgysylltu ynghylch presenoldeb yr Aelodau.

Ar wahân i hynny, o ran eich ymrwymiad i gynnal gwaith craffu ar Gomisiynwyr Cymru, byddwn yn croesawu diweddariad ynghylch y gwaith hwn.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Eitem 6.4

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog

16 Tachwedd 2022

Annwyl Brif Weinidog

Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau

Rwy'n ysgrifennu atoch o ystyried eich cyfrifoldeb personol dros Raglen Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu'n fawr fod Llywodraeth Cymru wedi symud i ffwrdd o'r arfer yn y Bumed Senedd o ddarparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1 pwyllgorau cyn i ddadl Cyfnod 1 gael ei chynnal a chyn ei bod yn ofynnol i'r Senedd gytuno ar Benderfyniad Ariannol.

Rôl y Pwyllgor Cyllid yw ystyried goblygiadau ariannol Biliau ac mae ein hadroddiadau yn aml yn dod i'r casgliad ein bod yn fodlon â'r wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys ochr yn ochr â Biliau'r Llywodraeth, yn amodol ar ymrwymiad gan y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth ariannol bellach yr ydym yn gofyn amdani. Gan fod y cynnig i gytuno ar Benderfyniad Ariannol fel arfer yn digwydd yn syth ar ôl i'r cynnig Cyfnod 1 gael ei dderbyn, mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i wrthod darparu ymateb ffurfiol i'n hargymhellion yn golygu bod gofyn i'r Senedd gytuno i ymrwymo adnoddau cyn bod barn y Gweinidog yn hysbys. Rydym o'r farn bod hyn yn annerbyniol ac mae'n tanseilio'r broses graffu.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried goblygiadau ariannol yr holl Filiau sydd wedi'u cyflwyno yn ystod y Senedd hon, ac eithrio'r Bil cydgrynhoi sy'n ddarostyngedig i wahanol weithdrefnau. Yn ein gwaith craffu ar y Bil cyntaf a gyflwynwyd, y *Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)*, gwnaethom nodi ein disgwyliadau ar gyfer y Senedd hon y dylai Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl o gostau a buddion i'n galluogi i graffu'n llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil. Roedd hyn yn adeiladu ar faterion a nodwyd yn Adroddiad Gwaddol Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd sy'n nodi disgwyliadau pellach o ran cyflwyno gwybodaeth ariannol y dylai pob Bil gadw ati.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Yn ddiweddar, cawsom ymateb Llywodraeth Cymru i’n hargymhellion ar *Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru).* Roedd y Pwyllgor yn siomedig bod y Gweinidog wedi "cytuno mewn egwyddor" mewn llawer o achosion i ddarparu’r wybodaeth ariannol bellach y gofynnwyd amdani. Fodd bynnag, mae'r rhaglith yn awgrymu bod swyddogion y Gweinidog yn asesu dichonoldeb diweddaru'r gost wreiddiol ac, os ydyn nhw'n gallu, "bydd unrhyw waith yn cymryd o leiaf chwe mis i'w gwblhau". Hyd yn oed os bydd y costau'n cael eu diweddaru, mae'n debygol y bydd y Bil wedi cwblhau ei daith ddeddfwriaethol drwy'r Senedd erbyn i'r wybodaeth fod ar gael.

Yn syml, nid yw hyn yn ddigon da. Nid yw’n ddefnyddiol cael y wybodaeth hon ar ôl i’r Senedd eisoes gytuno ar y Penderfyniad Ariannol. Mae hefyd yn tanseilio ymdrechion y Pwyllgor sydd, yn ei dro, yn cynyddu'r risg yn sylweddol y bydd y Senedd yn pasio deddfau gwael, gyda chanlyniadau ariannol ansicr a allai roi pwysau sylweddol ar gyllidebau sydd eisoes dan bwysau.

Gofynnwn felly i Weinidogion ddychwelyd at yr arfer blaenorol a darparu ymateb ysgrifenedig i argymhellion y Pwyllgor Cyllid cyn dadl Cyfnod 1 ac ystyried Penderfyniad Ariannol fel mater o egwyddor. Bydd hyn yn sicrhau bod y Senedd yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus mewn perthynas ag ymrwymo adnoddau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddosbarthu'r llythyr hwn i'ch cydweithwyr yn y cabinet. Rwyf hefyd yn anfon copi at y Pwyllgor Busnes a Chadeiryddion y pwyllgorau polisi.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon